John Newton 1725–1807

Gweinidog a masnachwr caethweision

Hanai John Newton o Wapping, Llundain, lle y ganwyd ef ar 24 Gorffennaf 1725. Mab ydoedd i John ac Elizabeth ac yr oedd ei dad yn gapten llong. Roedd ei fam yn mynychu capel yr Annibynwyr yn Old Gravel Lane, Wapping. Roedd hi yn Gristion o argyhoeddiad a dysgodd emynau Isaac Watts i'w mab pan oedd yn blentyn. Bu hi farw pan nad oedd John ond chwech oed. Aeth John Newton i ysgol yn Stratford, Essex, a byddai'n mynd ar fordeithiau gyda'i dad. Ceir hanes ei fywyd cynnar mewn hunangofiant a gyhoeddodd sef *An Authentic Narrative of some Remarkable and Interesting Particulars in the Life of ...* (1764), sydd yn blethiad o hanes ei dröedigaeth a digwyddiadau rhamantus yn ystod ei yrfa forwrol. Yn ystod y cyfnod hwn cefnodd yn llwyr ar y ffydd Gristnogol.

Ym 1743 cafodd ei orfodi gan y près (*press gang*) i fynd ar fwrdd yr HMS *Harwich*. Ceisiodd ddianc ond fe gafodd ei ddal a'i chwipio a'i roi mewn llyffetheiriau. Gwyddai fod y llong ar fordaith o bum mlynedd i India'r Gorllewin. Cyn gadael Madeira llwyddodd i gael ei drosglwyddo i long fasnachol oedd yn delio gyda chaethweision. Yn ystod y cyfnod hwn aeth yn gwbl wyllt ac aflywodraethus. Arhosodd ar arfordir Guinea yn Affrica i geisio gwneud ei ffortiwn ond wynebodd galedi mawr, salwch, newyn a chamdriniaeth ddybryd gan Clow ei feistr. Anfonodd ei dad gyfaill i chwilio amdano ac wedi ei ganfod dychwelodd adref ar y *Greyhound*. Wrth deithio'n ôl aeth y llong i storm ddychrynllyd a bu bron â suddo. Gweddïodd Newton am y tro cyntaf ers blynyddoedd am waredigaeth. Cyfeiriodd at y noson honno, 21 Mawrth 1748, fel y dydd y cafodd dröedigaeth a chredu yn Iesu Grist. O hynny ymlaen bu'n darllen y Beibl a llyfrau Cristnogol eraill. Dim ond dechrau'r daith oedd hyn ar ei bererindod ysbrydol. Dychwelodd i Loegr a phriododd ei gariad Mary Catlett ym 1750.

Yn ystod y blynyddoedd dilynol aeth ar fordeithiau fel capten llongau oedd yn cludo caethweision. Yn raddol daeth o dan ddylanwad y

Diwygiad Efengylaidd yn Lloegr a phobl fel George Whitefield a John Wesley. Cyhuddwyd ef o ragrith llwyr gan ei fod yn credu un peth ond yn ei waith beunyddiol yn rhan o fasnach ddieflig caethweision. Roedd hon gwaetha'r modd yn nodwedd warthus o Ewropeaid ei gyfnod. Yn ddiweddarach yn ei fywyd edifarhaodd am yr hyn a wnaeth a chywilyddiodd oherwydd ei ymwneud â chaethwasiaeth gan gefnogi William Wilberforce yn ei ymgyrch i ddiddymu'r fasnach.

Am gyfnod bu'n swyddog gyda'r gwasanaeth sifil ond yn ei amser hamdden bu'n astudio diwinyddiaeth, Lladin, Groeg a Hebraeg. Daeth yn gyfeillgar gyda George Whitefield a John Wesley a llu o weinidogion eraill. Wedi cyfnod hirfaith o ymgeisio i fynd i'r offeiriadaeth fe'i gwnaed yn ddiacon yn Eglwys Loegr a'i ordeinio ym 1764 ac fe'i penodwyd yn giwrad yn Olney, Swydd Buckingham. Yn yr un flwyddyn cyhoeddodd ei lyfr poblogaidd *Authentic Narrative*. Bu yn yr ofalaeth am un mlynedd ar bymtheg.

Yn fuan wedi iddo gael tröedigaeth fe symudodd y bardd William Cowper ym 1767 i fyw i Olney. Cydweithiodd y ddau ohonynt ar gyfrol o emynau ond oherwydd iselder mawr methodd Cowper â chwblhau'r gwaith. Penderfynodd Newton fwrw ati i gyhoeddi'r emynau o dan y teitl *Olney Hymns* (1779). Yn y gyfrol hon yr ymddangosodd ei emynau enwog, 'How sweet the name of Jesus sounds!' ac 'Amazing grace'.

Ym 1780 symudodd i fod yn offeiriad yn eglwys St Mary Woolnoth a St Mary Woolchurch, Lombard Street, Llundain. Daeth yn bregethwr poblogaidd gyda phobl yn tyrru yno i wrando arno ac fe ddaeth yn ymgynghorydd answyddogol i arweinyddion o fewn y llywodraeth. Bu farw ar 21 Rhagfyr 1807 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent St Mary Woolnoth. Symudwyd y gweddillion ym 1893 i Olney.